
AR WERTH - RHYDD-DDALIAD

HEN SWYDDFEYDD Y CYNGOR / CYFLE DATBLYGU

CYNIGION DROS £400,000





Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo, SA19 6HW

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Disgrifiad

Cyfle arbennig i brynu yr eiddo rhydd-ddaliad mawr hwn yn nhref farchnad hanesyddol Llandeilo. Mae'r eiddo yng nghanol y dref gyda golygfeydd godidog o Ddyffryn Tywi ac mae'n agos at amwynderau a chysylltiadau trafnidiaeth.

Cafodd yr adeilad ei ddefnyddio yn y gorffennol fel swyddfeydd y Cynghorau, ac mae'n cynnwys ti llawr ar oddeutu 0.28 hectar (0.7 erw).

Fe'i trawsnewidiwyd yn wreiddiol ym 1974 at ddefnydd swyddfa ac yn amodol ar estyniad ac adnewyddu mawr at ddibenion gweinyddol ym 1992. Mae'r eiddo yn rhannol o adeiladwaith brics confensiynol ac yn rhannol o adeiladwaith ffrâm ddur modern o dan do llechi ar oleddf, sy'n cynnig man swyddfa hyblyg a chynllun agored.

Mae'r eiddo amlbwrpas hwn o faint sylweddol sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys gwasanaethau masnachol, proffesiynol, cyfleusterau addysgol, canolfannau cymunedol, cartrefi gofal neu ailddatblygu preswyl (Yn amodol ar Ganiatâd Cynllunio).

Lle

Mae'r adeilad yn darparu arwynebedd mewnol gros o oddeutu 1896 metr sgwâr (20,400 troedfedd sgwâr) ar dri llawr gyda chymysgedd o fannau gweinyddol cynllun agored, swyddfeydd preifat, ac ystafelloedd cyfarfod mawr.

- **Islawr:** Offer, ystafell mesurydd, ystafelloedd storio a oedd gynt yn 6 bae parcio a gyrhaeddwyd trwy ddrws consertina lefel y ddaear**.**
- **Y Llawr Gwaelod:** Atriwm gwydr ar ddwy lefel, cyntedd y brif fynedfa, derbynfa, cyfleusterau toiledau hygyrch, mynediad lifft, swyddfeydd unigol a chynllun agored.
- **Llawr Cyntaf:** Swyddfeydd unigol a chynllun agored, ystafell bwrdd gweithredol, cegin fach a chyfleusterau toiledau.


Yn allanol, mae 20 o leoedd parcio pwrpasol y gellir mynd iddyn nhw drwy'r maes parcio cyhoeddus sy'n darparu mannau parcio preifat i staff ac ymwelwyr. Gellir dod o hyd i 4 lle ychwanegol ar yr ochr ddwyreiniol gyda mynediad o Heol Cilgant, ynghyd â phlanwyr, grisiau a llwybrau troed ar gyfer mynediad o amgylch y safle cyfan.

Gellir gweld mesuriadau mewnol manwl o'r cynllun cyfredol ynghlwm.

Lleoliad

Mae'r eiddo ar Heol Cilgant, Llandeilo, SA19 6HW, gan gynnig mynediad hawdd i amwynderau lleol yn Llandeilo, tref farchnad hanesyddol sydd â siopau bwtîc, caffis, delis, a bwytai bistro. Mae gan yr ardal olygfeydd naturiol gwych gan gynnwys golygfeydd godidog o Ddyffryn Tywi.

Mae'r safle yn elwa ar gysylltiadau trafnidiaeth ardderchog sy'n croesi Afon Tywi ar bont gerrig o'r 19eg ganrif i'r A483 a'r A40 sy'n cysylltu â Chaerfyrddin, Abertawe a thrafforddd yr M4. Mae o fewn pellter cerdded byr i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus trwy lwybrau bysiau a Gorsaf Reilfforddd Llandeilo, sy'n cynnig cysylltedd rhanbarthol gwerthfawr.



Gwasanaethau

Mae'r safle wedi'i gysylltu â phrif gyflenwad trydan, nwy, dŵr a draenio.
Mae mynediad lifft rhwng y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Swyddfeydd wedi'u haerdymheru'n rhannol, a gallu cael Band Eang drwy'r cysylltiad ffeibr i'r adeilad.

Cynghorir pob un sydd â diddordeb yn y lle i wneud eu hymholiadau eu hunain gyda'r darparwyr cyfleustodau priodol ynghylch capasiti, argaeledd ac addasrwydd gwasanaethau ar y safle.

Pris Gofyn

Ar werth drwy gytundeb preifat - Cynigion dros £400,000


Ardrethi Busnes

Gwerth ardrethol yr eiddo yw £86,000 (2026/27). Mae rhagor o gynlluniau gostyngiadau mewn ardrethi ar gyfer sectorau busnes gwahanol - gellir cael gwybodaeth fanwl drwy e-bostio trethi@sirgar.gov.uk neu ffonio 01554 742330

Y Defnyddiwr

Defnyddiwyd tan yn ddiweddar fel swyddfeydd y Cyngor o dan Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cynllunio B1 - Swyddfeydd. Mae gan yr eiddo botensial rhagorol ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau a chael ei drawsnewid. Cynghorir darpar brynwyr i holi'r awdurdod cynllunio lleol i gael gwybod a yw'r defnydd a fwriedir ganddynt yn addas HwbCynllunio@sirgar.gov.uk

Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)




Costau Cyfreithiol


Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun yn sgil y trafodion hyn.


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Eiddo ac Adfywio
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP
Enw: Beverly Scrine
E-bost: bascrine@sirgar.gov.uk

Cynlluniau cynllun mewnol (Dangosol):








Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynllun safle:



Lluniau:





Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council









You will need to operate bilingually according to the Council's policies including interior and exterior bilingual signs in the property. There is an advice and assistance service as well as free translation and proof-reading available. For information, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

For information and help to work biligually, go to www.carmarthenshire.gov.wales/home/business and click on 'Welsh Language in business'

These particulars are intended to give a fair description of the property, but are set out for guidance only. Their accuracy cannot be guaranteed and you should satisfy yourself by inspection or otherwise as to their correctness. Carmarthenshire County Council is obliged to consider all offers received in respect of this property up until the exchange of contracts. It is not obliged to accept the highest or any offer.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council